Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024** |
| **DYDDIAD** | **12 Awst 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Bydd Aelodau o'r Senedd am gael gwybod ein bod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig o ran Cymru.

Gofynnodd yr Arglwydd Douglas-Miller, y cyn-Weinidog dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddir o dan adran 8C(1) a (2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth Prydain Fawr yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, y Rheoliadau Iechyd Planhigion a'r Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol ac yn cyfeirio at Reoliadau cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) yr UE at sawl diben. Yn bennaf, mae'r diwygiadau yn ehangu'r rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) nad ydynt yn dod o'r UE ond sy'n dod o Weddill y Byd (RoW), sy'n gymwys i'w symud o dan Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS) a'r cynllun symud wedi'i hwyluso.

Gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 9 Awst 2024 a daw i rym ar 26 Awst 2024 am Rheoliad 3 a 2 Medi 2024 am unrhyw ddiben arall.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n rhoi'r manylion am darddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/853/contents/made

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru. Mae'r OS yn ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, mae'r OS yn gweithredu ar draws Prydain Fawr ac yn cael effaith o ran derbyn nwyddau i Ogledd Iwerddon. O ystyried y cymhwyso i Ogledd Iwerddon, ni fyddai o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru i wneud yr OS hwn yn gyfan gwbl fel un ar gyfer Cymru yn unig. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Mae gwneud y rheoliadau ar lefel Prydain Fawr hefyd yn sicrhau na fydd unrhyw risg o wahaniaeth deddfwriaethol yn y DU a fyddai'n debygol o beryglu gweithrediad parhaus Fframwaith Windsor.